ANNUAL REPORT OF COUNCILLOR CAROL ELLIS

Buckley Mountain Ward

Membership of Internal Committees

Flintshire County Council

Planning Committee

Chair of the Social & Health Care Overview & Scrutiny Committee

Children's Forum

Membership of External Bodies

Buckley Town Councillor

School Governor - Elfed High School

Trustee of Hawkesbury Community Centre

Constituency Activity

As the Ward I represent as a single ward Councillor is the largest geographical area in Flintshire with more residents than most double wards, I remain busy. On average I receive at least two telephone calls and residents call at my front door daily. Social issues, anti-social behaviour and Streetscene issues are the most common. The High School, one Primary School, the Sports Centre and swimming Baths are in Buckley Mountain Ward along with the Recycling Centre, Landfill site and Council Depot.

Planning issues continue to be a time consuming activity with many controversial planning applications that have a direct impact on residents.

The Town Centre is an issue as shops are closing daily and the introduction and recent increase in car parking charges may have played a part in the shopping Precinct being put up for sale.

Residents feel there is a lack of support for the Town which in turn makes my role harder.

Initiatives and Special Activities

Currently working with others to continue to upgrade Hawkesbury Community Centre - so far £100,000 has been raised. Working with two other Councillors to try to turn the Old Buckley Baths into a community asset.

Trying to ensure Highway issues on Buckley Mountain Ward are addressed including parking issues outside schools. Community footpaths to improve safety building on the success of the new Footpath on Bryn Road.

Working with Councils to try to improve Buckley Town Centre.

Other Activities

Deputy Leader of the Independent Group

Learning and Development

Relevant training and development events attended**.**

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORYDD CAROL ELLIS

WARD MYNYDD BWCLE

(Aelodaeth o Bwyllgorau Mewnol)

Cyngor Sir y Fflint
Pwyllgor Cynllunio
Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Y Fforwm Plant

(Aelodaeth o Gyrff Allanol)

Cynghorydd Tref Bwcle
Llywodraethwr Ysgol - Ysgol Uwchradd Elfed
Ymddiriedolwr Canolfan Gymunedol Hawkesbury

(Gweithgaredd Etholaeth)

Mae gan y Ward yr wyf yn ei chynrychioli, fel Cynghorydd un ward, yr ardal ddaearyddol fwyaf yn Sir y Fflint, gyda mwy o breswylwyr na'r rhan fwyaf o'r wardiau dwbl, ac felly rwyf bob amser yn brysur. Ar gyfartaledd, rwyf yn derbyn o leiaf dwy alwad ffôn ac mae preswylwyr yn galw heibio fy nghartref yn ddyddiol. Materion cymdeithasol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion Strydwedd yw'r pynciau trafod mwyaf cyffredin. Mae'r Ysgol Uwchradd, un Ysgol Gynradd, y Ganolfan Chwaraeon a'r Baddonau i gyd wedi'u lleoli o fewn Ward Mynydd Bwcle ynghyd â'r Ganolfan Ailgylchu, y Safle Tirlenwi a Depo'r Cyngor.

Mae materion cynllunio yn parhau i fynd ag amser gyda llawer o geisiadau cynllunio dadleuol sy'n cael effaith uniongyrchol ar breswylwyr.

Mae Canol y Dref yn broblem gan fod siopau yn cau yn ddyddiol. Mae'r Ganolfan Siopa bellach ar werth ac mae'n bosib iawn bod cyflwyniad a'r cynnydd diweddar i ffioedd parcio wedi chwarae rhan yn hynny.

Nid yw preswylwyr o'r farn bod digon o gefnogaeth yn cael ei rhoi i'r dref, sydd felly yn gwneud fy ngwaith i yn anoddach.

(Mentrau a Gweithgareddau Arbennig)

Ar hyn o bryd rwyf yn gweithio ag eraill er mwyn parhau i uwchraddio Canolfan Gymunedol Hawkesbury – rydym wedi casglu £100,000 hyd yma. Rwyf yn gweithio gyda dau Gynghorydd arall i geisio troi hen adeilad Baddonau Bwcle yn ased cymunedol.

Rwyf yn ceisio sicrhau fod problemau Priffordd o fewn Ward Mynydd Bwcle yn cael eu datrys, gan gynnwys problemau parcio y tu allan i ysgolion. Llwybrau cerdded cymunedol i wella diogelwch, gan adeiladu ar lwyddiant y llwybr cerdded newydd ar Ffordd y Bryn.

Gweithio gyda Chynghorau eraill i geisio gwella Canol Tref Bwcle.

(Gweithgareddau Eraill)

Dirprwy Arweinydd y Grŵp Annibynnol

(Dysgu a Datblygiad)

Wedi mynychu digwyddiadau hyfforddi a datblygu perthnasol.